



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cwmni Adsefydli Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company
Gweithredwr gan / Operated by Working Links



Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018 – 2023

Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu - 2018/19

GWELEDIGAETH: Mae pobl sy'n byw, gweithio, astudio ac ymweld â Chaerdydd yn cael y cyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb ddiodef o drais a chamdriniaeth.

NODAU:




PARATOI

Gwella'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV yn strategol trwy agwedd partneriaeth mwy cydlynol ledled y rhanbarth.




CANLYN

Delio â throseddwyr VAWDASV trwy wella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn gwasanaethau a'r defnydd o bwerau cyfreithiol i ymyrryd ac euogfarnu.



ATAL

Delio'n rhagweithiol ag agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd â'r potensial o arwain at VAWDASV, gan gydnabod bod hyn yn 'fater i bawb'.



AMDDIFFYN

Gwella ymateb a chymorth amlasiantaeth i bob dioddefwr VAWDASV a'u plant, ni waeth lefelau risg neu anghenion



CYMORTH

Sicrhau bod gwasanaethau arloesol a hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i fodloni anghenion dioddefwyr sy'n profi ffurfiau ar VAWDASV

Mae yn ein dwylo ni




Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad cynnydd hwn ar y cynllun gweithredu ar gyfer 2018/19 yn amlinellu'r flwyddyn gyntaf o weithrediad **Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023**.

Datblygwyd y cynllun gweithredu gan bob partner sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth, a defnyddir yr un dull partneriaeth i sicrhau bod gweithgareddau'r cynllun gweithredu'n cael eu cyflawni.


Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn defnyddio'r graddau CAG canlynol drwyddi draw:

-  - Yn dangos cynnydd gwael neu ddim cynnydd, neu nad yw'r gweithgaredd yn berthnasol mwyach
-  - Yn dangos rhywfaint o gynnydd, neu fod angen newid y gweithgaredd
-  - Yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud neu fod y gweithgaredd wedi'i gwblhau



Mae pob gweithgaredd a nodwyd i'w gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2018/19 o dan bob un o'r 5 pennawd, sef **Paratoi, Dilyn, Atal, Diogelu** a **Cefnogi**, wedi'i drafod, ynghyd â'r gweithgareddau allweddol sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2019/20.

Lle bo angen, mae camau gweithredu newydd wedi'u nodi, ynghyd â newidiadau i'r camau gweithredu presennol.

Lluniwyd y ddogfen Mai 2019



Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

PARATOI			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Asesiad Anghenion	Gwella dulliau casglu data yn barhaus i hysbysu asesiad anghenion parhaus yn well	Bob Blwyddyn ac yn Barhaus	
Llywodraethu	Gweithredu ac adolygu trefniadau llywodraethu yn barhaus, gan gynnwys aelodaeth, i sicrhau eu bod yn aros yn addas at y diben	Parhaus	

Mae trefniadau casglu data ar draws y rhanbarth wedi'u gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda bwrdd gwaith o ddata pennawd yn cael ei gynhyrchu bob chwarter a'i rannu gyda phartneriaid rhanbarthol. Mae casglu data ar anghenion yn broses barhaus a chynhelir ymarfer **Asesu Anghenion** diwygiedig cynhwysfawr yn 2019/20 i lywio datblygiad y Strategaeth Gomisiynu ranbarthol. Mae gweithgarwch a chanlyniadau achosion ar draws pob llys sifil a throsteddol yn parhau'n fwllch data, ond y gobaith yw y gellir unioni hyn yn ystod 2019/20.

Mae'r strwythur **Llywodraethu** rhanbarthol nawr ar waith, yn cynnwys y grwpiau a'r cyfnodau cyfarfod canlynol:




Grŵp Llywio VAWDASV Rhanbarthol (Chwarterol)	Paneli Adolygu Dynladdiad Domestig (lleol) (Yn ôl yr angen)
Bwrdd Comisiynu VAWDASV Rhanbarthol (Misol)	Byrddau Gweithredol VAWDASV (lleol) (Chwarterol)
Grŵp Addysg a Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (Chwarterol)	Grwpiau Llywio'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) (lleol) (Chwarterol)
Grŵp Trais Rhywiol Strategol (Chwarterol)	Grŵp Llywio Gwaith Rhyw Caerdydd a'r Fro (Chwarterol)
Grŵp Llywio'r Rhuban Gwyn (Bob deufis)	Fforwm Budd Proffesiynol (Dwywaith y flwyddyn)
Grŵp Prifysgolion a Cholegau VAWDASV Caerdydd a'r Fro (Chwarterol)	Grŵp Llywio'r Llys Trais Domestig Arbenigol (Chwarterol)

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys goroeswyr mewn cynllunio strategol; gofynnwyd i gynrychiolwyr o SEEdS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) i gymryd rhan mewn nifer o'r is-grwpiau hyn. Cyflwynir diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth VAWDASV ranbarthol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol bob chwarter, a gwneir cysylltiadau ffurfiol gyda'r strwythurau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol yn y rhanbarth i rannu gwybodaeth, materion a diweddariadau.

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
Cynnwys Goroeswyr	Ceisio cynnwys a chael mewnbwn gan ddioddefwyr a goroeswyr sy'n cynrychioli pob math o drosedd a nodwedd a ddiogelir.	Medi 2019
Cydweithredu Ehangach	Helpu i sefydlu dull systemau cyfan ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020
Cyflwyniad	Gweithio tuag at ddatblygu cyd-strategaethau a pholisïau rhanbarthol perthnasol lle y bo'n bosib	Mawrth 2023

Mae dulliau eraill o **Gynnwys Goroeswyr** yn cael eu hystyried i geisio adborth cynnil ar draws y nodweddion a ddiogelir a phob math o drosedd, gan gynnwys goroeswyr sydd wedi dioddef o drais a cham-drin rhywiol, gweithwyr rhyw a'r rheini sydd wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

DILYN			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Cyfiawnder Adferol	Adolygu'r canllawiau a'r dull gweithredu o ran defnyddio arferion adferol ar gyfer dioddefwyr VAWDASV yn barhaus	Parhaus	
Defnydd Diogel o Dechnoleg	Cyflwyno ymgyrchoedd lleol i dynnu sylw at ddefnydd diogel o dechnoleg	Parhaus	
Annog Dioddefwyr i Roi Gwybod	Annog a chefnogi mwy o ddioddefwyr i ymgysylltu â Gorfodi'r Gyfraith i ystyried cywiriadau troseddol a sifil	Parhaus	

Gall arferion **Cyfiawnder Adferol** fod yn ddefnyddiol fel adnodd ymyrraeth gynnar i atal achosion rhag gwaethygu. Fodd bynnag, mae canllawiau'r Heddlu'n parhau i nodi nad yw cyfiawnder adferol yn ddatrysiad priodol mewn achosion o gam-drin neu drais domestig ac na ddylai gael ei ddefnyddio fel datrysiad. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad oes perthynas agos â phartner, na hanes o berthynas o'r fath, ac nad yw'r troseddau'n cynnwys trais, stelcio, aflonyddu na throseddau rhywiol, gall cyfiawnder adferol gael ei ystyried os oes meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Gofynnwyd i bartneriaid ar draws y rhanbarth gymryd rhan mewn astudiaeth sydd â'r nod o ystyried sut mae sefydliadau amrywiol yn ffurfio safbwyntiau swyddogol ar ba mor briodol yw defnyddio prosesau Cyfiawnder Adferol mewn achosion o drais domestig.

Mae'r gwaith o hyrwyddo'r **Defnydd Diogel o Dechnoleg** yn gofyn am ddull amlasiantaethol i sicrhau y gall negeseuon, awgrymiadau a strategaethau diogelu ymarferol allweddol gael eu lledaenu'n hawdd i blant, pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd. Bydd y gwaith yma yn gofyn am arweinydd Heddlu arbenigol, a chaiff ei ystyried yn ystod 2019/20.










Mae **Annog Dioddefwyr i Roi Gwybod** yn parhau'n amcan allweddol i'r Heddlu, sydd am sicrhau bod dioddefwyr yn ddigon hyderus i roi gwybod am gam-drin gan wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Yng Nghaerdydd, mae'r Heddlu'n cynnal cymorthfeydd rheolaidd, anffurfiol yn Siop Un Stop RISE-Caerdydd i ddangos eu bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymorth arbenigol. Mae problemau gydag adnoddau wedi atal cyd-ymweliadau rheolaidd gyda staff RISE-Caerdydd â dioddefwyr y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel; mae'r broblem hon yn cael ei hystyried gan uwch reolwyr ar hyn o bryd, gan gynnwys y gallu i leoli Swyddog yn y Siop Un Stop yn barhaol.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
<i>Rheoli Integredig Troseddwy</i>	Treialu a gwerthuso ymyriadau MATAC ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig	Medi 2019
	Gwerthuso effaith Drive, gan gynnwys yr effaith ar ddioddefwyr a phlant	Mawrth 2020
<i>Gweithio gyda Throseddwy</i>	Gwella'r gwaith o fonitro ac adrodd ar raglenni / ymyriadau troseddwy	Mawrth 2020
	Ystyried opsiynau ymyrraeth gynnar ar gyfer y sawl sy'n poeni am eu hymddygiad	Mawrth 2020
	Ystyried opsiynau ar gyfer darparu amrywiaeth o ymyriadau troseddwy cymunedol	Mawrth 2020
<i>Ymateb Cyfiawnder Troseddol</i>	Cynyddu nifer y canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr	Mawrth 2023
	Gwella'r gwaith o fonitro canlyniadau achosion sy'n ymddangos gerbron llysoedd Ynadon a Llys y Goron	Mawrth 2021

Mae'r dull MATAC o reoli troseddwy yn cael ei asesu fel rhan o'r dull rhanbarthol mewn perthynas â ***Rheoli Integredig Troseddwy*** drwy gyflawni'r ymyriad Drive sydd â'r nod o gefnogi troseddwy i newid eu hymddygiad, naill ai drwy gymorth uniongyrchol neu dechnegau amharu.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

ATAL			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Trais Rhywiol	Cynnig adnodd IDSVa i wrywod ar draws pob partner yn y rhanbarth	Ebrill 2019	
	Gweithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru i ennill dealltwriaeth well o aflonyddu rhywiol	Mawrth 2019	
Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (FfHC)	Cysylltu â'r Coleg Barnwrol i sicrhau bod Ynadon yn cael eu hyfforddi mewn ymwybyddiaeth VAWDASV a chanllawiau dedfrydu	Hydref 2018	
Gweithwyr Rhyw	Adolygu effeithiolrwydd y cynllun Tŷ Tarian i lywio gwasanaeth yn y dyfodol	Mawrth 2019	
Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPN)	Datblygu trefniadau gwaith agos rhwng y gwasanaethau Drws Ffrynt Cymorth Cynnar a gwasanaethau VAWDASV arbenigol	Mawrth 2019	
Nodi ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)	Parhau'n ymrwymedig i brif ffyrddio'r model IRIS ar draws pob meddygfa yn y rhanbarth	Mawrth 2019	
Trais Rhywiol	Codi ymwybyddiaeth o gydsyniad ar bob cyfle	Parhaus	
Stelcio	Codi ymwybyddiaeth o stelcio a hyrwyddo'r camau ymarferol o roi gwybod	Parhaus	
Adolygiadau Ffurfiol	Gweithredu unrhyw newidiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'i hadolygiad o brosesau ADD	I'w gadarnhau	

Mae'r rhanbarth yn ffodus o gael Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a Arweinir gan lechyd sy'n cefnogi menywod, dynion a phlant sydd wedi profi unrhyw ffurf ar **Drais Rhywiol** (ymosodiad rhywiol, trais neu gam-drin rhywiol). Mae gan y gwasanaeth dîm o Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ETRhA) benywaidd, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw Eiriolwyr gwrywaidd ar gael i ddiodeffwyr. Mae darpariaeth ETRhA gwrywaidd yn cael ei hystyried fel rhan o'r gwaith o ailgomisiynu gwasanaeth arbenigol i ddiodeffwyr gwrywaidd cam-drin domestig a thrais rhywiol. O ran aflonyddu rhywiol, mae Heddlu De Cymru wedi dosbarthu arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae canlyniadau cychwynnol yr arolwg wrthi'n cael eu dadansoddi ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y gweithle a'r stryd ymysg yr ardaloedd lle mae aflonyddu rhywiol ar ei waethaf. Caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi'n fuan. Mae cydsyniad yn fater sy'n cael ei godi ym mhob digwyddiad cyhoeddus a digwyddiad staff ac mae stondinau'n cael eu cyflwyno gan bartneriaid ar draws y rhanbarth. Mae taflenni gwybodaeth ar gael ac mae dolenni at y cyfryngau ar-lein ac adnoddau eraill yn cael eu hyrwyddo. **Dyddiadau i'w diwygio.**

Er nad oes angen i'r system cyfiawnder troseddol gyflawni elfennau perthnasol o **Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (FfHC)** Llywodraeth Cymru, mae ymarfer mapio yn mynd rhagddo i adolygu canllawiau cenedlaethol a hyfforddiant lleol i holl staff y llysoedd (troseddol a sifil). Bydd hyn yn llywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol ynghyd â datblygiad y fforwm hyfforddi rhanbarthol i gyflawni Grwpiau 2 a 3 o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y defnydd o'r deunyddiau a ddatblygwyd gan Dasglu'r Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant Grŵp 2 Gofyn a Gweithredu y tu allan i'r GIG; os felly, gellir eu cyflwyno ar unwaith ar draws awdurdodau perthnasol. **Dyddiad i'w ddiwygio**

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Sefydlwyd y cynllun tai cymorth Tŷ Tarian fel cynllun peilot gan ddefnyddio cyllid Arloesi Cefnogi Pobl i gefnogi **Gweithwyr Rhyw** sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Daeth y cynllun i ben ym mis Mawrth 2019 ac mae gwerthusiadau wedi nodi meysydd ar gyfer dysgu ac argymhellion i'r dyfodol. Mae gwaith nawr yn cael ei wneud gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i adolygu anghenion yr holl fenywod menyw sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Y gobaith yw datblygu llwybrau i mewn ac allan o gymorth, gan gynnwys y mathau o lety mwyaf addas i'w hanghenion, ac y gellir ymateb mewn modd amlasiantaethol.

Yn y rhanbarth, mae'r angen i fynd i'r afael â **Phrofiadau Plentyndod Niweidiol (PPNau)** yn parhau'n flaenoriaeth uchel. Yng Nghaerdydd yn benodol, cytunwyd ar ddull gweithredu newydd o helpu a chefnogi teuluoedd, yn seiliedig ar 3 gwasanaeth newydd: gwasanaeth *Porth Teulu* i ymateb i bob atgyfeiriad ac ymholiad ac sy'n cynnig gwybodaeth a chynghor, gwasanaeth *Helpu Teuluoedd* sy'n gweithio'n agos â'r cyntaf i ymateb yn brydlon i deuluoedd y mae angen rhywfaint o gymorth byrdymor arnynt (bydd y *Porth Teulu* a *Helpu Teuluoedd* yn eistedd ochr yn ochr â Dechrau'n Deg a Gwasanaeth Magu Plant Caerdydd i ffurfio *Gwasanaeth Cymorth Cynnar* cynhwysfawr). Yn olaf, bydd *Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd* yn cael ei reoli gan y Gwasanaethau Plant i weithio gyda theuluoedd â phroblemau mwy cymhleth neu ddifrifol. Bydd y gyfres Cymorth Cynnar yn cael ei chyflwyno'n raddol yn 2019 ac, i gefnogi'r gwaith yma, bydd teuluoedd sy'n profi VAWDASV yn cael eu cyfeirio at Siop Un Stop RISE-Caerdydd o Ebrill 2019, gyda gweithwyr Plant a Phobl Ifanc arbenigol yn cynnig cymorth medrus i blant a phobl ifanc sydd wedi profi neu weld cam-drin domestig yn ogystal â chefnogi dioddefwyr sy'n oedolion. Bydd y gwaith yma hefyd yn cysylltu ag ymateb Cymru Gyfan yr Heddlu i PPNau – Gweithredu Cynnar Ynghyd.

Mae'r gwaith o gyflwyno'r dull **Nodi ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)** ar draws pob un o 64 meddygfa'r rhanbarth bron wedi'i gwblhau, gyda Chlystyrau Gogledd a Dwyrain Caerdydd i'w cwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2019. Mae gwaith gwerthuso ar y broses yn y rhanbarth wedi dangos bod IRIS yn dod yn fwy effeithiol bob blwyddyn, gyda meddygon teulu a hyfforddwyd drwy IRIS 22 gwaith yn fwy tebygol o ofyn i gleifion am drais a cham-drin domestig na'r lleill. Sicrhawyd cyllid gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tan fis Mawrth 2020 i sicrhau cymorth parhaus i feddygfeydd ac ymateb cyflym gan wasanaethau arbenigol. Mae gwasanaeth RISE-Caerdydd wedi derbyn cyllid pellach gan Brifysgol Bryste i barhau i gyflwyno'r dull gweithredu i gyflwyno IRIS+ yng Nghaerdydd a fydd yn cefnogi dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig, plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig ac unrhyw droseddwy'r a adnabyddir. Bydd hyn yn digwydd yn Nhredelerch a Llanrhymini i ddechrau – dwy ardal nad ydynt wedi cael hyfforddiant IRIS. **Dyddiad i'w ddiwygio**

Mae **Stelcian** yn fater sydd wedi cael llawer o sylw yn y rhanbarth yn ddiweddar – cyflwynodd Dr. Jane Monckton-Smith, Darlithydd mewn Troseddeg ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, ei chanfyddiadau o adolygiad o ADDau ar sut gall ymddygiad stelcio gael ei adnabod yn gynnar i ymarferwyr rheng flaen arbenigol yn y Gynhadledd Datblygu'r Gweithlu a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019. Cafwyd ymateb da iawn, ac mae'r partneriaid rhanbarthol nawr eisiau datblygu ymateb cydlynol i stelcio, gan edrych ar adnodd asesu gwell ar gyfer nodi cynnar a ffyrdd o roi sylw i'r mater yn gyhoeddus. Bydd gweithgor yn bwrw ymlaen â'r mater hwn yn 2019/20.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Daeth adolygiad Llywodraeth Cymru o Adolygiadau Dynladdiad Domestig yng Nghymru i ben ym mis Mawrth 2018. Nid yw'r adroddiad ar y canfyddiadau wedi'i gyhoeddi gan nad yw'n bodloni rheolau llym ar gyfer ymchwil empirig, ond mae'r adroddiad wedi'i basio ymlaen i'r tîm Plant a Chymunedau yn Llywodraeth Cymru i ystyried sut gallai ADDau alinio ag **Adolygiadau Ffurfiol** eraill, fel prosesau Adolygiad Arfer Plant ac Oedolion. Fodd bynnag, mae Tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiweddar y bydd yn dosbarthu'r adroddiad i gynorthwyo trafodaeth o safbwynt VAWDASV – rydym yn aros am hyn o hyd.







Dyddiad i'w gynnwys ar ôl derbyn gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
Lleoliadau Addysgol	Parhau i hyrwyddo a monitro gweithgareddau addysg ar draws y rhanbarth, gan gynnwys plant 'anodd eu cyrraedd'	Rhagfyr 2020
	Rhoi cymorth i bob sefydliad addysg uwch ac addysg bellach i sicrhau dull cyson a gweladwy o daclo VAWDASV a rheoli datgeliadau	Rhagfyr 2020
Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (FfHC)	Gweithredu'r cynllun hyfforddi rhanbarthol i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022
Ymyrraeth Gynnar	Blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n atal pob ffurf ar VAWDASV	Mawrth 2021
	Gweithredu'r cynllun peilot cenhadon Gofynnwch i Fi yng Nghaerdydd a rhannu'r dysgu	Mawrth 2020
Trais ar sail Anrhydedd / Priodas Dan Orfod	Gwella dealltwriaeth o sut mae priodas dan orfod yn effeithio ar unigolion â nodweddion a ddiogelir	Medi 2020
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB)	Cynyddu dealltwriaeth ysgolion o AOCB a sut i ymateb	Mawrth 2022
Economi'r Nos	Helpu i weithredu'r camau gweithredu o'r strategaeth 'Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar'	Mawrth 2022
Gweithwyr Rhyw	Codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth o'r materion a wynebwr gan weithwyr rhyw.	Mawrth 2022
Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern	Ehangu cyrhaeddiad y modiwl ymwybyddiaeth Masnachu Pobl drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022
Profiadau Plentynod Niweidiol (PPN)	Cefnogi lechyd Cyhoeddus Cymru i symud o ddeall yr ymchwil PPN i ddeall beth yw ymateb cadarnhaol ac effeithiol	Mawrth 2021
Adolygiadau Ffurfiol	Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o bob adolygiad gwasanaeth ffurfiol sy'n cynnwys ADDau yn cael ei adlewyrchu mewn gwasanaeth a'i rannu'n eang	Mehefin 2020
Ymgyrch Rhuban Gwyn	Gweithredu Cynllun Gweithredu'r Rhuban Gwyn ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020
	Parhau i eirioli dros Gymru Rhuban Gwyn	Rhagfyr 2019

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Mae'r ddau awdurdod lleol wedi ailymgeisio'n llwyddiannus am statws **Rhuban Gwyn** ym mis Gorffennaf 2018 a datblygu cynllun gweithredu i amlinellu'r gweithgarwch parhaus yn y rhanbarth i annog dynion i sefyll yn erbyn trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i fonitro gan Grŵp Llywio sy'n cael ei gadeirio gan Bencampwr Rhuban Gwyn sy'n cael ei ddewis o blith y Cynghorwyr ym mhob awdurdod lleol. Cynhaliwyd trafodaethau ag Ymgynghorwyr Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Arweinydd Unigolion a Dioddefwyr Agored i Niwed o swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru am gefnogaeth i'r cysyniad o 'Gymru Rhuban Gwyn'. Mae angen gwneud hyn i adlewyrchu'r cyfeiriad strategol yn y wlad ac ystyriaethau eraill fel yr iaith Gymraeg ar gyfer deunydd cyhoeddusrwydd. Mae'r cysyniad hefyd wedi'i drafod gyda Phrif Weithredwr White Ribbon UK sydd wedi cadarnhau eu bod yn adolygu eu gwasanaeth cyfan a'r gosodiad rhanbarthol.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

DIOGELU			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Datgeliadau Cyfraith Clare / Cyfraith Sarah	Hyrwyddo Cynlluniau Datgelu ymhellach ar bob cyfle	Parhaus	
Llysoedd Arbenigol	Gweithio gydag ymgyrchwyr i gryfhau lleisiau dioddefwyr ym mhob llys	Parhaus	
Rheoli PPNau VAWDASV	Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliant parhaus y MASH	Bob blwyddyn	
	Monitro ymateb y gwasanaeth arbenigol i HDCau yn ofalus	Bob blwyddyn	
Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg	Gwella ansawdd atgyfeiriadau MARAC ar draws y rhanbarth	Bob blwyddyn	
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Monitro'r defnydd o lety brys/argyfwng yn barhaus i sicrhau bod darpariaeth ar gael i'r rheini sydd ei hangen fwyaf	Bob blwyddyn	

Mae'r gallu i wneud cais am **Ddatgeliadau Cyfraith Clare / Cyfraith Sarah** yn cael ei hyrwyddo ym mhob digwyddiad a stondin cyhoeddus a staff, yn arbennig drwy daflen wybodaeth Cyfraith Clare y Swyddfa Gartref/Heddlu De Cymru. Gofynnwyd i Heddlu De Cymru ddatblygu taflen wybodaeth debyg ar gyfer Cyfraith Sarah. I wella gwasanaethau i ddioddefwyr posib, mae pob cais am ddatgeliad Cyfraith Clare yn cael ei ystyried yn y cyfarfodydd Trafodaethau Cam-drin Domestig Dyddiol amlasiantaethol a gynhelir yn MASH.

O ran **Llysoedd Arbenigol**, sicrhawyd cyllid yn ystod 2018/19 gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i ddarparu cymorth IDVA i ddioddefwyr sy'n mynychu llys teuluol, i adlewyrchu'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y llysoedd troseddol. Fodd bynnag, mae ymateb rhai o farnwyr y llysoedd teuluol wedi bod yn eithaf negyddol ac mae proses y llys yn aml yn gwaethygu trawma'r dioddefwr, heb weithredu er budd pennaf y plentyn. Yn ystod 2019/20 bydd partneriaid yn gweithio gyda goroeswyr i dynnu sylw at y materion hyn, gobeithio fel rhan o adolygiad Llywodraeth y DU o sut mae llysoedd teuluol yn diogelu plant a rhieni mewn achosion o gam-drin domestig a throseddau difrifol eraill. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd adolygiad 3-mis yn cael ei gynnal gan banel o arbenigwyr, gyda galwad cyhoeddus am dystiolaeth.

Mae proses MASH/MARAC Caerdydd yn esblygu'n barhaus i ymateb i'r galw a phwysau ar bartneriaid, gyda'r strwythurau sy'n goruchwyllo'r MASH ar lefelau gweithredol a strategol yn cael eu hadnewyddu a'u hailsefydlu mewn ymateb i hyn. O ran **Rheoli HDCau VAWDASV**, mae hyn yn cael ei fonitro'n agos drwy'r strwythurau llywodraethu, lle mae arferion gwahanol ar waith ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth. Yng Nghaerdydd, caiff yr HDCau sy'n nodi plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn dyst i neu brofi cam-drin domestig eu trin gan y gwasanaeth RISE-Caerdydd.

Mae atgyfeiriadau at brosesau'r **Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)** ar draws y rhanbarth, sy'n annibynnol, yn cael eu monitro'n agos, gyda gwelliannau'n cael eu hyrwyddo drwy adborth a hyfforddiant. Mae trafodaethau wedi dechrau i ystyried alinio'r llwybrau MARAC gwahanol (cam-drin domestig, masnachu pobl a gweithwyr rhyw) i mewn i un Llwybr Bregusrwydd ac Ecsploetiaeth. Caiff hyn ei ddatblygu yn ystod 2019/20. **Newid gweithgaredd i: Sefydlu a gweithredu'r Llwybr Bregusrwydd ac Ecsploetiaeth erbyn Mawrth 2021**

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023






Bydd argaeledd a defnydd o **Gymorth sy'n Gysylltiedig â Thai** ledled y rhanbarth yn cael eu pennu drwy'r prosesau asesu anghenion diwygiedig. Bydd canfyddiadau'n cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiad y strategaeth gomisiynu ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o ddarpariaeth llety i ddiodefwyr trais domestig yng Nghymru a bydd partneriaid ledled y rhanbarth yn cyfrannu yn ôl y gofyn.

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
Hysbysiadau a Gorchmynion	Gwella'r defnydd o Hysbysiadau a Gorchmynion ar draws y rhanbarth	Mawrth 2020
Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)	Adolygu canfyddiadau'r ymchwil ar ddyfodol MARAC ac ystyried unrhyw effaith ar brosesau presennol	Mehefin 2019
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Asesu effaith newidiadau diwygio lles a'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar lety arbenigol i ddiodefwyr	Mawrth 2020
Llysoedd Arbenigol	Cefnogi diodefwyr yn well drwy'r prosesau cyfiawnder troseddol a sifil	Mawrth 2021
Polisiâu'r Gweithle	Datblygu a mabwysiadu polisiâu VAWDASV diwygiedig ar gyfer y gweithle ac annog pob partner i wneud yr un peth	Mehefin 2019
	Mabwysiadu'r gofyniad i gontractwyr ddatblygu polisiâu'r gweithle drwy drefniadau comisiynu a chaffael	Rhagfyr 2019
	Sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r materion ac yn deall llwybrau atgyfeirio	Rhagfyr 2019
Cadarnhau Targedau	Adolygu'r opsiynau cadarnhau targedau sydd ar gael a datblygu dull rhanbarthol	Mehefin 2019

Mae llawer o bartneriaid rhanbarthol yn dal i fod heb ddiwygio **Polisiâu'r Gweithle** eleni (BIP Caerdydd a'r Fro, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Ambiwlans Cymru). Dylai pob partner hyrwyddo'r broses o fabwysiadu polisiâu'r gweithle drwy drefniadau comisiynu a chaffael, a rhoddir cymorth i unrhyw sefydliadau y mae angen cymorth o'r fath arnynt.

Mae argaeledd a'r gwaith o hyrwyddo mesurau **Cadarnhau Targedau** ar draws y rhanbarth yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gyda phob sefydliad statudol wrthi'n cynnal adolygiad o'i ddull gweithredu ei hun o ran mesurau diogelwch o'r fath, gan gynnwys trefniadau atgyfeirio, prosesau gwneud penderfyniadau a chyllid. Caiff y dulliau hyn eu hadolygu a'u trafod cyn datblygu unrhyw gyd-lwybr cyflawni posibl. **Dyddiad i'w ddiwygio**

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

CEFNOGI			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Dioddefwyr Gwrywaidd	Comisiynu gwasanaeth dioddefwyr gwrywaidd arbenigol gyda phartneriaid rhanbarthol ehangach	Mawrth 2019	
Gweithwyr Rhyw	Adolygu canfyddiadau'r ymchwil 'Beyond the Gaze'	Mawrth 2019	
Ymchwil	Cyfrannu'n weithredol at broiectau ymchwil ystyrlon i ehangu dealltwriaeth a gwella gwasanaethau	Parhaus	
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Parhaus	
Dioddefwyr LGBTQ+	Sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i ddioddefwyr LGBTQ+	Parhaus	

Mae datblygiad gwasanaeth arbenigol i **Ddioddefwyr Gwrywaidd** cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi symud ymlaen, gyda phob awdurdod lleol ar draws de Cymru a Gwent yn dangos diddordeb mewn cymryd rhan yn y broses comisiynu a chaffael. Mae'r diddordeb hwn wedi achosi rhywfaint o oedi o ran cael gafael ar y data anghenion perthnasol, ac mae cymeradwyaeth wrthi'n cael ei cheisio drwy brosesau llywodraethu lleol. Fodd bynnag, bydd gwasanaeth arbenigol newydd yn cael ei greu erbyn Ebrill 2020. **Dyddiad i'w ddiwygio**

Gwnaeth yr astudiaeth Beyond the Gaze fapio tueddiadau 641 o **Weithwyr Rhyw** sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd ar gyfer eu gwaith, gyda 62 o gyfweiliadau lled-strwythuredig eraill yn cael eu cynnal. Arolygodd hefyd gwsmeriaid gweithwyr rhyw sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd, gyda 1,323 o ymatebion. Gofynnodd yr ymchwil sut mae darpariaeth diogelwch a gwasanaethau iechyd yn ymateb i anghenion y rheini sy'n gweithio yn y sector, gyda'r ffocws ar hwyluso'r broses o integreiddio gwaith rhyw ar-lein i mewn i ddarpariaethau presennol. Dangosodd yr ymchwil y gallai pobl sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol uniongyrchol ac anuniongyrchol dros y rhyngwrwyd brofi aflonyddu a bygythiadau ar-lein, neu ddefnydd anghydsyniol o'u data. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y lefelau o drais sy'n cael eu profi gan weithwyr rhyw ar y rhyngwrwyd yn is o lawer na gweithwyr rhyw ar y stryd. Mae'r goblygiadau i'r Strategaeth ranbarthol yn cynnwys hyrwyddo anghenion diogelwch a chymorth penodol y gweithwyr rhyw hynny sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ar y rhyngwrwyd drwy ddatblygu systemau rhwydweithio cyfoedion a fydd yn hyrwyddo ymgysylltu gweithredol, yn gwella cyfraddau adrodd troseddau i'r Heddlu ac yn hyrwyddo National Ugly Mugs ar gyfer gweithwyr rhyw ar-lein i roi gwybod am aflonyddu, stelcio a bygythiadau.

Mae'r rhanbarth yn parhau'n ymrwymedig i gymryd rhan mewn **Ymchwil** ac wrthi'n darparu, monitro ac adolygu Drive, MATAAC a Change That Lasts gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru; yn adolygu darpariaeth lloches a gwasanaethau trais rhywiol gyda Llywodraeth Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; ac yn darparu a monitro IRIS ac IRIS+ gyda meddygfeydd ar draws y rhanbarth.

Mae darpariaeth mewngymorth i gefnogi'r **Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr** yn y rhanbarth wrthi'n cael ei hystyried gan RISE-Caerdydd ac Atal y Fro. Gan gydweithredu â'r Uned Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar draws safleoedd sefydlog a phoblogaethau gwasgaredig y rhanbarth, byddant yn codi ymwybyddiaeth o ac yn gweithio i fagu hyder o ran cysylltu â gwasanaethau arbenigol am gyngor, mesurau diogelwch a chymorth.

Yn Ein Dwylo Ni – Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Gall **Dioddefwyr LGBTQ+** gael eu cefnogi drwy'r ddarpariaeth arbenigol bresennol yn y rhanbarth, ond bydd yr asesiad anghenion diwygiedig yn pennu a oes bylchau yn y ddarpariaeth i'r grŵp hwn. Bydd barn sefydliadau LGBTQ+ yn cael ei cheisio yn ystod y flwyddyn i lywio gwasanaethau'n barhaus.

GWEITHGARWCH YN Y DYFODOL		
Plant a Phobl Ifanc	Ystyried ehangu'r gwasanaeth modelau rôl gwrywaidd cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n profi mathau eraill o drais a chamdriniaeth	Mawrth 2021
Ymyriadau Teulu	Ymchwilio ac ystyried modelau ymyriadau teulu ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol	Mawrth 2020
Pobl o Gefndir Du neu Leiafrifol Ethnig	Adolygu effeithiolrwydd y clinig peilot Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	Mehefin 2019
Dioddefwyr LGBTQ+	Atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau LGBTQ+ arbenigol i wella gwasanaethau a chyfraddau adrodd	Medi 2019
Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)	Sefydlu model 'Prif Ganolfan a Lloerennau' SARC ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol ledled de-ddwyrain Cymru	Rhagfyr 2019
Pobl Hŷn	Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol i ddatblygu polisiau a hyfforddiant i bobl sy'n gweithio gyda dioddefwyr hŷn o VAWDASV	Rhagfyr 2019
Anghenion Cymhleth / Triawd Tocsig	Sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ystyried a gweithredu ar sut mae anghenion cymhleth yn effeithio ar oedolion a phlant	Mawrth 2022
Gweithwyr Rhyw	Ystyried ffyrdd newydd o nodi, gwarchod a diogelu gweithwyr rhyw a'r cymunedau yr effeithir arnynt	Rhagfyr 2019

O ran **Pobl o Gefndir Du neu Leiafrifol Ethnig**, mae'r clinig Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod wedi bod yn llwyddiannus yn ei flwyddyn beilot ac wedi helpu i lywio adolygiadau i'r llwybr adrodd AOCB. Caiff strategaeth AOCB arfaethedig ei datblygu gan y grŵp amlasiantaethol sy'n adolygu'r llwybr AOCB a chaiff ei chyhoeddi'n fuan.

Mae'r broses o gaffael **Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)** 'Prif Ganolfan a Lloerennau' ddiwygiedig ar gyfer rhanbarth ehangach de-ddwyrain Cymru yn cael ei hystyried o hyd gan y Bartneriaeth Weithredol dan gadeiryddiaeth Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda chynrychiolwyr o lechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector yn cyfrannu. Cytunwyd y caiff yr Hybiau yng Nghymru eu lleoli yn Abertawe, Aberystwyth a Chaerdydd, gyda gwasanaeth Pediatrig yn cael ei gynnig yn Abertawe a Chaerdydd.

Nid yw'r gwaith o ddatblygu polisiau a hyfforddiant penodol i'r rheini sy'n gweithio gyda **Phobl Hŷn** sydd wedi dioddef o VAWDASV wedi dechrau eto. Fodd bynnag, caiff materion o'r fath eu cwmpasu gan Grwpiau 2 a 3 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a gaiff ei gyflwyno i bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y rhanbarth dros y 2 flynedd nesaf.

Ymwelodd cynrychiolaeth o bartneriaid o bob rhan o dde Cymru â Chyngor Sir Leeds i ddysgu am ei Ddull Gweithredu Rheolaeth Holbeck o ran **Gweithwyr Rhyw**. Caiff canfyddiadau ac argymhellion eu cyflwyno i Fwrdd Darparu Gweithredol Diogelwch Cymunedol Caerdydd i'w trafod a'u hystyried ymhellach.